# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 9FED AWST, 2016**

Lleoliad

**Ystafell Gyfarfod, Frondeg, Pwllheli, LL53 5RE.**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans 01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 1/8/16)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

**AELODAETH (3)**

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes

W. Tudor Owen (Cadeirydd)

Ann Williams

Elfed Williams (Eilydd)

## Aelod Lleol

Y Cynghorydd

Angela Russell

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO — 5 - 8

Gŵyl Glass Butter Beach

Ystyried y cais uchod

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

**Atgoffir oll o'r pedwar egwyddor i'w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:**

1) **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2) **Diogelwch y Cyhoedd;**
3) **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4) **Amddiffyn plant rhag niwed.**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **9 AWST 2016** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – GLASS BUTTER BEACH, CARREG Y DEFAID, LLANBEDROG, PWLLHELI, LL53 7NL** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

**CAIS A DDERBYNIWYD**

Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Glass Butter Beach, Carreg y Defaid, Llanbedrog, Pwllheli LL53 7NL gan Mr Mark Elliot Durston Rose Cottage, Stryd Fawr, Abersoch, LL53 7DS.
Gwneir y cais mewn perthynas â chyflenwi alcohol, cerddoriaeth wedi ei recordio, cerddoriaeth fyw perfformiadau dawns, dangos ffilmiau a dramâu, unrhyw adloniant arall a chyflenwi lluniaeth hwyr y nos.
Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys. Oherwydd bod sylwadau sydd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu wedi ei wneud ar y cais; fe gyflwynir y cais er ystyriaeth yr Is - Bwyllgor hwn.

Mae trwydded gyfredol yn bodoli ar gyfer y digwyddiad yn y lleoliad presennol ers 2014.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig a'r oriau a'r gweithgareddau ar y drwydded gyfredol.

| GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG | TRWYDDED GYFREDOL | TRWYDDED ARFAETHEDIG |
|---|---|---|
| **Cyflenwi alcohol -** Ar ac Oddi ar yr Eiddo | Dydd Iau/Thursday **14:00-23:30**<br>Dydd Gwener/Friday **12:00-00:00**<br>Dydd Sadwrn/Saturday **12:00-00:00** | Dydd Iau/Thursday **14:00-00:30**<br>Dydd Gwener/Friday **12:00-02:00**<br>Dydd Sadwrn/Saturday **12:00-02:00**<br>Dydd Sul/Sunday **12:00-00:00** |
| **Cerddoriaeth fyw -** dan do ac awyr agored` | Dydd Iau/Thursday **17:00-00:00**<br>Dydd Gwener/Friday **12:00-00:00**<br>Dydd Sadwrn/Saturday **12:00-00:00** | Dydd Iau/Thursday **14:00-00:00**<br>Dydd Gwener/Friday **12:00-01:30**<br>Dydd Sadwrn/Saturday **12:00-01:30**<br>Dydd Sul/Sunday **12:00-23:30** |
| **Cerddoriaeth wedi ei recordio –** dan do ac awyr agored | Dydd Iau/Thursday **17:00-00:00**<br>Dydd Gwener/Friday **12:00-00:00**<br>Dydd Sadwrn/Saturday **12:00-00:00** | Dydd Iau/Thursday **14:00-00:00**<br>Dydd Gwener/Friday **12:00-01:30**<br>Dydd Sadwrn/Saturday **12:00-01:30**<br>Dydd Sul/Sunday **12:00-23:30** |
| **Dramâu, ffilmiau, Perfformiadau dawns ac adloniant arall-** o dan do ac awyr agored | Dydd Iau/Thursday **17:00-00:00**<br>Dydd Gwener/Friday **12:00-00:00**<br>Dydd Sadwrn/Saturday **12:00-00:00** | Dydd Iau/Thursday **14:00-00:00**<br>Dydd Gwener/Friday **12:00-01:30**<br>Dydd Sadwrn/Saturday **12:00-01:30**<br>Dydd Sul/Sunday **12:00-23:30** |
| **Darparu lluniaeth hwyr y nos -** o dan do ac awyr agored | Dydd Iau/Thursday **23:00-05:00**<br>Dydd Gwener/Friday **23:00-05:00**<br>Dydd Sadwrn/Saturday **23:00-05:00** | Dydd Iau/Thursday **23:00-05:00**<br>Dydd Gwener/Friday **23:00-05:00**<br>Dydd Sadwrn/Saturday **23:00-05:00**<br>Dydd Sul/Sunday **23:00-05:00** |

| | | |
|---|---|---|
| **Oriau agor a chau i'r cyhoedd** | Dydd Iau/Thursday **12:00-00:00**<br>Dydd Sul/Sunday **00:00-19:00** | Dydd Iau/Thursday **14:00-23:59**<br>Dydd Gwener/Friday **00:00-23:59**<br>Dydd Sadwrn/Saturday **00:00-23:59**<br>Dydd Sul/Sunday **00:00-23:59**<br>Dydd Llun/Monday **00:00-14:00** |

**Rheswm dros gyflwyno cais am drwydded eiddo newydd**

Digwyddiad blynyddol yw Glass Butter Beach gyda cherddoriaeth , a digwyddiadau chwaraeon dwr gan gynnwys ton-fyrddio yn digwydd ger ac oddi ar y safle. Mae'r ŵyl yn digwydd dros benwythnos hir ym mis Awst, a cyn 2014 roedd yr ŵyl wedi ei lleoli mewn llecyn cyfagos.

Mae trefnydd yr ŵyl yn gobeithio datblygu'r arlwy a gynigir yn yr ŵyl er mwyn denu cynulleidfa ehangach. Mae'r trefnydd yn nodi eu bod yn anelu at ddenu 5,000 o bobl i'r ŵyl y flwyddyn hon; gyda'r gobaith o gynyddu'r gynulleidfa dros y blynyddoedd i ddod. Gyda hyn mewn golwg, fe wneir y cais y tro hwn am drwydded ar gyfer cynulleidfa o 9,999.

Rheswm arall dros gyflwyno cais newydd ar gyfer y digwyddiad oedd ymestyn y penwythnos i gynnwys adloniant rheoledig a gweithgareddau trwyddedig eraill er mwyn cynnal noson ychwanegol fel rhan o'r ŵyl.
Noder hefyd y gofynnir am gychwyn gweithgareddau trwyddedig yn gynnar prynhawn dydd Iau, gan gyflenwi alcohol awr yn hwyrach ar y nos Iau ( tan 00:30) ond dod a gweithgareddau trwyddedig eraill ( arwahan i ddarparu lluniaeth hwyr y nos) i ben am hanner nos fel yn y drwydded gyfredol.
Gofynnir am yr hawl i gyflenwi alcohol am ddwy awr yn hwyrach ar y nos Wener a'r nos Sadwrn tan 02:00. Gofynnir am awr a hanner yn ychwanegol ar gyfer gweithgareddau trwyddedig eraill gan gynnwys cerddoriaeth fyw ac wedi recordio tan 01:30.

**Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu**

- Bwriedir cydymffurfio gyda gofynion Iechyd a Diogelwch a Diogelwch Tan ac unrhyw ofynion a osodir gan y Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Digwyddiadau
- Bwriedir cydweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru a chwmni diogelwch proffesiynol i reoli trosedd ac anrhefn
- Bwriedir cynhyrchu Cynllun Rheoli Diogelwch Digwyddiad ( Event Safety Management Plan - ESMP) cynhwysfawr i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod Trwyddedu a'r Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Digwyddiad
- Defnydd o Deledu Cylch Cyfyng ar y safle
- Bwriedir cyflwyno Cynllun Iechyd a Diogelwch
- Fe fydd Asesiad Risg yn cael ei gyflwyno.
- Fe fydd mynediad yn cael ei gyfyngu i rai dros 16, gyda mynediad drwy docyn a phrawf oedran cydnabyddedig a gwerthiant alcohol drwy gyflwyno Cerdyn Adnabod
- Gweithredir polisi 'Her 25' ar werthiant alcohol
- Cyflogir cwmni diogelwch a stiwardiaid cymwys wedi eu cofrestru gyda'r Security Industry Authority
- Cyflawnir archwiliadau diogelwch cyn i unigolion gael mynediad
- Cyflogi Cwmni Rheoli Sŵn proffesiynol i reoli sŵn yn unol â gofynion yr Uned Gwarchod y Cyhoedd

- Fe gyflwynir Cynllun Rheoli Sŵn er cymeradwyaeth mis cyn y digwyddiad
- Cyflogi Cwmni Gwaredu Gwastraff proffesiynol

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

**YMGYNGHORIAD**

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| **YMATEBION** | **SYLWADAU** |
|---|---|
| | |
| Cyngor Cymuned | Llythyr - sylwadau |
| Heddlu | 1 e bost - sylwadau |
| Gwasanaeth Tan ac Achub | Llythyr – sylwadau |
| Cyngor Gwynedd – Gwarchod y Cyhoedd | 1 e bost - sylwadau, ac amodau rheoli sŵn |

**Sylwadau – Cyngor Cymuned**

Nodwyd na ddylid cau y rhan perthnasol o lwybr yr arfordir sydd yn rhedeg yn union o dan y safle. Datganwyd yn ogystal fod angen cyfyngiad 30 milltir yr awr ar yr A499 cyn cychwyn yr ŵyl ac ar y diwrnod mae'r ŵyl yn dod i ben er mwyn diogelwch y cyhoedd.
Datganwyd pryderon nad oedd llanast wedi cael ei glirio oddi ar y safle flwyddyn ddiwethaf ar ddiwedd yr ŵyl. Roedd eitemau gan gynnwys cwt pren wedi ei gadael ar hyd y flwyddyn yn y goedlan ar y safle gan arwain at gwynion gan y cyhoedd.
Nodwyd fod aelodau'r Cyngor Cymuned yn teimlo y dylai oriau alcohol gyd fynd gydag oriau'r adloniant rheoledig - sef tan 01:30 y bore .

**Sylwadau - Heddlu Gogledd Cymru**

Derbyniwyd amryw o sylwadau gan yr Heddlu mewn perthynas â
- Diffyg manylion digonol Cynllun gwirio oedran a gwybodaeth am sut y bwriedir rheoli mynediad i'r safle i rai o dan 16; a pha drefniant fydd yn cael ei roi mewn lle i ymateb i unigolion sydd heb ddogfennau adnabod dilys.
- Angen sicrhau Teledu Cylch Cyfyng mewn mannau allweddol
- Materion rheoli trafnidiaeth - cynghorir yr ymgeisydd i wneud cais am ardal clirffordd dros dro mewn perthynas â'r ffyrdd cyhoeddus cyfagos.
- Argymhellir trefniant Gwasanaeth Plismona Arbennig oherwydd bod proffil y digwyddiad wedi newid o ran oedran y gynulleidfa; ymestyn yr wyl i 4 diwrnod ac oriau gweithgareddau trwyddedig hwyrach. Fe fyddai trefniant o'r fath yn cyfarch y risgiau ychwanegol o danseilio'r amcanion Trwyddedu a gyfyd yn sgil y newidiadau.
- Nodwyd nad oedd cyfle digonol wedi bod i adolygu dogfennau allweddol cyn i'r cyfnod ymgynghori ar y cais am drwydded ddod i ben - a gofynnir am yr hawl i godi unrhyw faterion perthnasol yn y gwrandawiad ar gyfer y cais.

**Sylwadau - Gwasanaeth Tan ac Achub**

Nodwyd fod angen sicrhau fod dogfennau Cynllun Rheoli Digwyddiad yn cael eu gyrru i swyddogion y Gwasanaeth mis cyn y digwyddiad; a bod angen cynnal archwiliadau a chyfarfodydd safle cyn y digwyddiad.

**Sylwadau – Gwarchod y Cyhoedd**

Nodwyd fod tystiolaeth o gwynion am sŵn o'r wyl hon wedi bod o dan y drwydded gyfredol a'r drwydded flaenorol.
Yn ogystal, fe adolygwyd y drwydded eiddo blaenorol yn 2012, ac yn 2015 fe fethodd y trefnydd gydymffurfio a'r amodau o benodi unigolion cymwys i reoli sŵn ac i ddarparu adroddiad monitor sŵn ar ôl y digwyddiad.
Mae potensial y gall y newidiadau arfaethedig arwain at fwy o gwynion sŵn gan danseilio'r amcan trwydded o atal niwsans cyhoeddus wrth ymestyn yr oriau gweithgareddau trwyddedig, a chynnwys diwrnod ychwanegol o weithgareddau trwyddedig.
Argymhellir fod y cais yn derbyn cymeradwyaeth yn ddarostyngedig i amodau rheoli sŵn penodol a phwrpasol gael eu cynnwys ar y drwydded eiddo.
Nodwyd hefyd fod yn bwysig fod y trefnydd yn cydymffurfio a'r holl amodau yn llawn os yw y cais yn llwyddiannus, er mwyn sicrhau gwarchodaeth i drigolion cyfagos rhag ardrawiad sŵn gormodol.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais diwygiedig yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.